Gweithgaredd 6

Yn gweithio orau efo grŵp o 6 neu fwy.
Oed 8+

GWE YNNI

TASG

Gêm gylch i gymell grŵp o blant iau i feddwl am ynni ac o ble daw o.

OFFER

Lluniau Taflen Adnodd 1 wedi eu gludo ar gerdyn.
Pelen fawr o linyn neu gortyn

GWEITHGAREDD



Y plant i sefyll mewn cylch a chael cerdyn bob un.
Defnyddiwch y llinyn i gysylltu pawb ar draws y cylch yn ôl eu categori ynni (gweler y daflen adnodd).
(Er mwyn i'r gêm weithio mae'n rhaid cael o leiaf un o bob categori lliw)

- Mae pob plentyn i gyflwyno'i hun fel yr hyn sydd ar ei gerdyn e.e. Glo ydw i, tanwydd gorsaf bŵer ydw i, ayb.

- Gofynnwch 'Gan bwy mae'r cerdyn coch?' (offer trydanol) a dewiswch rywun.
- Gofynnwch 'Beth sydd ei angen arnoch chi i weithio?' (trydan).
- Gadewch i'r plentyn hwnnw afael yn y belen llinyn, yna'i ddirwyn a'i roi o gwmpas bys y person sy'n dal y cerdyn trydan gan ofyn 'O ble y cewch chi'ch ynni?' (gorsaf bŵer)
- Cysylltwch y llinyn i'r person yna ac felly ymlaen nes cyrraedd yr 'haul'.
- Ail-adroddwch y broses nes bod pawb wedi eu cysylltu, h.y. 'Gan bwy arall mae cerdyn coch...?' ayb.

- Pan fydd pawb wedi ei gysylltu, gofynnwch i'r plant beth fyddai'n digwydd petai rhywbeth yn cael ei dynnu o'r cylch e.e. olew. Gofynnwch i un plentyn, e.e. olew, eistedd. Mae'r plentyn hwnnw'n cynrychioli rhywbeth sy'n dod i ben. Wrth eistedd bydd yn tynnu'n ysgafn ar y llinyn ysgafn. Mae pwy bynnag sy'n teimlo'r llinyn yn tynnu i eistedd hefyd ac yn tynnu'r llinyn, ac yn y blaen.

- Defnyddiwch sylwadau'r plant i fesur eu dealltwriaeth ac fel

Taflen adnodd

Gweithgaredd 6

GWE YNNI

Yr haul	**Dŵr**	**Glo**	**Olew a nwy**
Gwynt	**Trydan**	**Panel Solar**	**Tyrbin Gwynt**
Gorsaf bŵer trydan dŵr	**Gorsaf bŵer glo**	**Gorsaf bŵer olew neu nwy**	**Tegel**
Teledu	**Cyfrifiadur**	**Bwlb golau**	**Cell tanwydd hydrogen**